**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**National Assembly for Wales**
External Affairs and Additional Legislation Committee

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru

23 Mawrth 2018

Annwyl Brif Weinidog,

**Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Trefniadau craffu**

Ysgrifennodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Llywydd ar 16 Mawrth 2018 mewn cysylltiad â newidiadau i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ('y Bil Ymadael') a gopïwyd atoch chi a'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

Yn y llythyr hwnnw, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifennu:

> "There remain some outstanding issues relating to scrutiny arrangements by the Assembly where the First Minister's view, as set out in his 5 February letter, differs from the recommendations made by the Assembly's Constitutional and Legislative Affairs Committee following its scrutiny of the Bill. I have asked the First Minister to confirm whether his consideration of the Committee's recommendations have resulted in any change in what he is seeking."

Tra bod y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y 'Pwyllgor CLA') wedi cynnig trefniadau craffu manwl ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth a fydd yn llifo yn sgîl y Bil Ymadael, mae hwn yn parhau i fod yn faes sydd o ddiddordeb mawr i ni fel Pwyllgor y Cynulliad sy'n gyfrifol am graffu ar y broses ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMADY@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMADY
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEAAL@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEAAL
0300 200 6565

Heb roi sylwadau ar fanylion cynigion y Pwyllgor CLA, credwn eu bod, yn fras, yn unol â'n safbwynt ni ar drefniadau craffu, fel y mynegwyd yn y chweched amcan a osodwyd gennym ar gyfer gwella'r Bil Ymadael.

Wrth drafod ein safbwynt ni ar drefniadau craffu, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi dweud yn glir o'r blaen y dylai hwn fod yn fater i'r Cynulliad benderfynu arno.

Byddwn yn ddiolchgar os gallech ddarparu manylion inni ynghylch sut mae eich safbwynt yn wahanol i safbwynt argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ac a yw'n wahanol i'n safbwynt ni, fel y mynegwyd yn ein chweched amcan ar gyfer y Bil Ymadael.

Amgaeir copi o'n hamcanion ar gyfer y Bil Ymadael er hwylustod.

Mae hefyd ail bwynt yr hoffem ei godi, sef, mewn perthynas â deunydd esboniadol gwell.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol, ym mharagraff 3.3 o'r atodiad i'w lythyr at y Llywydd, dyddiedig 16 Mawrth, yn datgan:

> "The First Minister has confirmed that the requirements for enhanced explanatory material relating to the effect of SIs and equalities statements should not be applied to Welsh Ministers' powers."

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau eich rhesymau dros y penderfyniad hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac at y Llywydd.

Yn gywir,

David Rees AM, Chair of the External Affairs and Additional Legislation Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.